# Gemma Bailey

Ffôn: 029 20 1234; E-bost: BaileyG@gmail.com


**PROFFIL**

Myfyriwr y Gyfraith brwdfrydig, gweithgar sy'n rhoi sylw rhagorol i fanylion ac â gallu trefnu heb eu hail, a sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar proffesiynol a gafodd eu datblygu drwy rolau paragyfreithiol a gweithgareddau pro bono. Sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid rhagorol drwy brofiad manwerthu a lletygarwch. Ar hyn o bryd, rwy'n chwilio am gyfle i ennill profiad pellach mewn cwmni cyfraith droseddol canolig.

**ADDYSG**

---

**LLB y Gyfraith,** Prifysgol Caerdydd **2021 - presennol**
Modiwlau Perthnasol:
Canlyniadau Blwyddyn 2: 2:1; Canlyniadau Blwyddyn 1: 2:1

**Safon Uwch,** Coleg Caerdydd a'r Fro, Caerdydd **2019 - 2021**
Cymdeithaseg (A), Almaeneg (A), Hanes (B)

**TGAU,** Ysgol Uwchradd Ystad Newydd, Caerdydd **2014 - 2019**
A - Daearyddiaeth, Celf, Cymraeg, Hanes, Iaith Saesneg, Llenyddiaeth
B - Gwyddoniaeth Ddwbl, Mathemateg, Ffrangeg, Almaeneg

**PROFIAD PERTHNASOL**

---

**Aelod o Dîm y Prosiect Dieuogrwydd, Prifysgol Caerdydd** **Hydref 2022 - presennol**

- Wedi cwblhau hyfforddiant dwys i gymryd rhan yn y cynllun pro bono cenedlaethol hwn i fyfyrwyr.
- Wedi adolygu achosion o garcharorion sy'n dal i fod yn ddieuog, er mwyn chwilio am unrhyw dystiolaeth na chafodd eu defnyddio, amddiffyniad cyfreithiol gwael, cyfaddefiad anniogel neu dystiolaeth arall a allai achosi aildreial neu wrthdroi euogfarn.
- Wedi cwrdd ag aelodau teulu'r carcharorion a gweithio dan oruchwyliaeth cyfreithwyr a bargyfreithwyr.
- Wedi datblygu sgiliau ymchwil a rheoli amser ardderchog er mwyn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr ymrwymiad i'r prosiect Dieuogrwydd bob wythnos a fy astudiaethau academaidd.

**Gweinyddwr gyda'r hwyr, XYZ Law, Caerdydd** **Rhagfyr 2021 – Ebrill 2022**

- Profiad gwaith paragyfreithiol oedd yn cynnwys diweddaru ffeiliau achos, gwaith mewnbynnu data ar gronfa ddata genedlaethol, ac ateb ceisiadau ymchwil y tu allan i oriau gwaith.
- Wedi ehangu fy ngwybodaeth am y fframwaith gweinyddol cyfreithiol ac wedi ennill sylfaen mewn amrywiaeth o faterion masnachol.

**Profiad gwaith gwirfoddol, Jones Solicitors, Caerdydd** **Gorffennaf 2019**

- Profiad gweinyddol di-dâl yn y cwmni Troseddol prysur hwn sydd â thri phartner.
- Wedi diweddaru ffeiliau, ateb galwadau ffôn, eistedd i mewn ar gyfweliadau a chleientiaid a mynychu'r Llys dair gwaith.
- Wedi datblygu dealltwriaeth o'r heriau gweithio ym maes cyfraith droseddol.

## PROFIAD ARALL MEWN CYFLOGAETH

**Cynorthwyydd Gwerthu, Village Pharmacy,** Caerdydd **Haf 2021 a 2022**

- Wedi cynghori cwsmeriaid ar ystod eang o gynhyrchion iechyd a harddwch.
- Wedi cael fy nghanmol am fy ymagwedd aeddfed, a arweiniodd at gymryd cyfrifoldeb am y tiliau ac am ddiogelwch y siop ar yr achlysuron hynny pan nad oedd y fferyllydd a rheolwr y fferyllfa yno.

**Gweinydd (rhan-amser ac yn ystod gwyliau),** Pizza Hut, Caerdydd **2019-2021**

- Gwaith rhan-amser er mwyn helpu i gynilo arian ar gyfer y brifysgol oedd hwn.
- Wedi gweithio'n rhan o dîm i gymryd archebion, gweini a chlirio byrddau, gan sicrhau'r cyflenwad digonol yn ystod sifftiau prysur iawn ar nos Wener a nos Sadwrn.
- Wedi delio â chwsmeriaid mewn modd cwrtais, cyfeillgar a chynnig gwasanaeth effeithlon a arweiniodd at adolygiadau cwsmeriaid rhagorol a chael fy nghydnabod yn Weithiwr y mis ddwywaith mewn cyfnod o 6 mis.

## SGILIAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Ymchwil:** | Wedi gwella fy sgiliau ymchwil cyfreithiol drwy astudio'r modiwl Sgiliau Sylfaenol Ymarfer Cyfreithiol. Yn gallu defnyddio offer ymchwil electronig gan gynnwys Lexis+ a Westlaw i gynnal ymchwil annibynnol ar gyfraith achosion, cynseiliau a ffurflenni llys |
| **Sgiliau Trefnu:** | Wedi datblygu sgiliau trefnu personol a rheoli amser rhagorol cydbwyso gwaith rhan-amser, astudio'n llawn-amser ac ystod o weithgareddau allgyrsiol ac ymrwymiadau pro bono, wrth barhau i gael graddau 2:1 uchel |
| **Cyfathrebu:** | Wedi rhoi min ar fy sgiliau cyfathrebu ar lafar drwy fod yn Diwtor sy'n Fyfyriwr, cyflwyno i grwpiau mawr o ddarpar fyfyrwyr, wyneb-yn-wyneb ac ar-lein. Mae sgiliau ysgrifennu cryf yn hanfodol wrth ddrafftio llythyrau at ac ar ran cleientiaid y Prosiect Dieuogrwydd |
| **Cywirdeb:** | Mae rôl y gweinyddwr yn gofyn am ganolbwyntio a'r gallu i fewnbynnu data'n gywir er mwyn cwblhau tasgau o fewn terfynau amser tynn |
| **Mentergarwch:** | Wedi cymryd y cam cyntaf yn Village Pharmacy drwy arddangos eitemau'n ymwneud â COVID e.e. fitaminau, hylif diheintio a masgiau, mewn man mwy amlwg, gan gynyddu gwerthiant. |

## DIDDORDEBAU A CHYFLAWNIADAU

| | |
|---|---|
| **Pêl-rwyd** | Wedi cynrychioli De Morgannwg mewn dau dwrnamaint i ysgolion. Aelod gweithgar o Dîm Ysgol y Gyfraith Prifysgol Caerdydd – heb ei guro hyd yn hyn y tymor hwn. |
| **Teithio** | Ymwelydd cyson ag Ewrop, cynrychioli New Estate Youth mewn dirprwyaeth i Bordeaux yn rhan o'r gynhadledd cyfnewid rhwng gefeilldrefi yn 2020. Hefyd teithio ar y rheilffyrdd yn ystod Haf 2023. |

**Gwaith Gwirfoddol** Tiwtor Myfyriwr, yn gweithredu fel mentor Addysg Uwch i ddisgyblion ysgol mewn ysgol uwchradd leol. Wedi rhoi cyflwyniadau am fywyd myfyrwyr ac amcanion gyrfa i grwpiau o ddisgyblion Blwyddyn 12 ac wedi cael gwahoddiad i ddychwelyd i gymryd rhan yn y rhaglen fentora am yr ail flwyddyn yn 2023.

**Geirdaon ar gael ar gais**